CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

*Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd am 7pm ar 1 Mawrth 2021 yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd)(Cymru 2020.*

---

Cyngr: Hywel Davies, Iwan Davies, Amanda Edwards, Garethe Eltawab, Nicky Redmond, Ken Symmons, Claire Proven

CS Clive Davies

Clerc

Aelodau'r cyhoedd a'r wasg: 0.

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cyng I Davies a chyfeiriodd yn benodol at y Cyng G Eltawab a oedd yn ymuno yn ei chyfarfod cyntaf.

**1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Roedd ymddiheuriadau wedi dod oddi wth y Cyng S Kings, Cadeirydd.

**2. Datgan Diddordeb ar Faterion yn Codi o'r Agenda**
Datgelodd y Cyng A Edwards ddiddordeb personol yn y cais am grant i'r Tîm Pêl-droed.
GWEITHREDU: Anfon ffurflen ymlaen GAN: Y Clerc

**3. Cadarnhau Trefn yr Agenda** a nodi unrhyw eitem a allai gael ei neilltuo ar gyfer sesiwn gyfrinachol
Derbyniwyd yr agenda fel y cafodd ei chyflwyno

**4. Cadarnhau Cofnodion 01-02.21**
Cynigiodd y Cyng A Edwards y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir, eiliwyd gan y Cyng K Symmons.

**5. Ceisiadau Cynllunio**

Dim byd i'w gyflwyno.

Mae dogfennau cynllunio i'w gweld yn: https://www.ceredigion.gov.uk/resident/planning-building-control-and-sustainable-drainage-body-sab/planning-building-control/

**6. Adroddiad y Cynghorydd Sir**
Dywedodd y CS C Davies nad oedd wedi cael ymateb hyd yma oddi wrth CSC ynglŷn â sefydlu cynllun

Gwylio Cŵn. Dywedodd fod trwyddedu cŵn yn cael ei ystyried oherwydd gallai'r arian o hynny gael ei ddefnyddio i gynnig gwell adnoddau i wardeiniaid cŵn. Diolchodd y Grŵp Gwytnwch am ei waith yn ystod y digwyddiadau yn y llifogydd yn ddiweddar. Gobeithiai allu gweld y modelu gan CNC a oedd yn dangos mai'r cwm oedd y prif ffactor yn y llifogydd, ac roedd yn deall bod Dyffryn Teifi yn gyfan i gael arolwg i leihau llifogydd. Byddai'n trefnu cyfarfod gyda'r AoS a'r AS ynglŷn â lleddfu llifogydd parhaus, a gofynnodd am i un Cynghorydd gael ei enwebu i fod yn bresennol. Byddai cyfarfod nesaf y Grŵp Gwytnwch Llifogydd ar 9 Mawrth 2021. Roedd Cyngor Sir Ceredigion yn cynnig gwyliau Treth Cyngor i'r rheiny a oedd wedi cael llifogydd. Gobeithiai y byddai darpariaeth band eang mwy effeithiol ar gael yn fuan. Soniodd fod y tir yn suddo ar y B4570 a'i fod wedi ateb ymholiadau am gais cynllunio'n ddiweddar. Dywedodd mai Ceredigion oedd wedi cael y grant isaf gan Lywodraeth Cymru ac y byddai'n rhaid i'r Sir ddod o hyd arbedion pellach. Rhoddodd wybodaeth am amrywiol faterion lleol a diolchwyd iddo am ei amser.

**7. Cyllid a Gweinyddu**

**7.1 Taliadau Misol**

*7.1.1 Cymeradwyo cyfrifon sy'n daladwy*

Danfo 294.00 Talwyd anfoneb Ionawr yn ôl y contract yn Chwefror 21

| | | | |
|---|---|---|---|
| HARC | | | 78.80 |
| S Davies | Cyflog | | 315.25 |
| S Davies | SG 25, postio 4.15 | | 29.15 |
| Eist Gen yr Urdd | Grant | | 100.00 |
| S Kings | Halen Caled | | 9.82 |
| Danfo | Glanhau'r bloc toiledau | | TBA |
| LAS | | DU | 22.86 |

*Cysoniad y Banc*

Y Clerc i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod mis Ebrill.

Cytunwyd i ofyn i Mrs J Jamison roi dyfynbris am archwiliad mewnol.
GWEITHREDU: Cysylltu â Mrs Jamison GAN: Y Clerc

*7.1.2 Achosion o Covid yn y gymuned*
*Dim byd i'w gyflwyno.*

*7.1.3 Bancio ar-lein – diweddaraf*
Dywedwyd y byddai'r Clerc a'r llofnodwyr yn ceisio gwneud taliadau mis Mawrth ar-lein.

*7.1.4 Dyddiadau cyfarfodydd Ebrill a Mai yn gwrthdaro a phrynu trwydded cyfarfodydd rhithwir*
Cytunwyd, gan fod dyddiadau'n gwrthdaro, y bydd cyfarfod mis Ebrill yn cael ei symud i'r 7fed a Chyfarfod Blynyddol Mai a'r Cyfarfod Cyffredinol yn cael ei gynnal ar y 5ed. Cytunwyd y byddai'r Cyngor yn prynu ei drwydded ZOOM ei hun. Diolchwyd i'r CS Davies am drefnu'r cyfarfodydd ZOOM yn ystod y flwyddyn flaenorol.
GWEITHREDU: Prynu trwydded ZOOM GAN: Y Clerc

*7.1.5 Arian Grant*
Ar ôl trafodaeth penderfynwyd dyfarnu'r canlynol:
Cruse £200
Clwb Pêl-droed £1000
Beiciau Gwaed £100

*7.1.6 Cyfathrebu*
Roedd y Cyng G Eltawab wedi gofyn am i fwy o wybodaeth fod ar gael am weithgareddau'r Cyngor drwy'r wefan a chylchlythyr. Nodwyd pryder y Clerc fod ei harddull ysgrifennu ymhell o fod yn addas at y diben.

Ar ôl trafodaeth cytunodd y Cyng G Eltawab yn garedig i ddarparu cyhoeddiadau gwybodaeth addas i'r Clerc. Nodwyd na fyddai'n hawdd dosbarthu cylchlythyr wedi argraffu o gwmpas y pentref a'r cartrefi y tu allan.
GWEITHREDU: Darparu gwybodaeth ysgrifenedig addas GAN: Y Cyng G Eltawab

7.1.7 Cytunwyd i gysylltu â CNC ynglŷn â pholisïau amaethyddol gwyrdd i ofyn am adolygu trwyddedau a chaniatadau ar afon Teifi a'i nentydd a'r tir sy'n ffinio i ganiatáu taenu slyri ac ychwanegu cynnyrch y diwydiant llaeth i gynyddu tyfiant porfa.
GWEITHREDU: Cysylltu â CNC GAN: Y Clerc

*7.1.8 Cais y Clerc am wyliau*
Cytunwyd â chais y Clerc am Wyliau.
Byddai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn delio ag unrhyw faterion iechyd a diogelwch yn ei habsenoldeb

**8. Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
*8.1.1 Croes-y-Llan a chyfyngiadau cyflymdra/dulliau tawelu traffig ar yr A484 rhwng cylchfan Pont y Priordy a phentref Llechryd/ Llangoedmor a Chroes-y-Llan*
Cytunwyd mai ychydig gynnydd oedd yn digwydd gyda CSC. Roedd yr heddlu'n ymwybodol o'r pryderon am y darn ffordd, ond nid oedd yn addas ar gyfer monitro cyflymdra cymunedol.
GWEITHREDU: Llythyr at yr AoS a'r AS GAN: Y Clerc

Roedd CSC wedi dweud nad nhw oedd piau'r fainc goncrid gyferbyn â'r bont. Nid oedd gan y CC ddim cofnod o berchnogaeth.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC eto GAN: Y Clerc

Nodwyd bod caead y bin sbwriel wrth adeilad y mileniwm wedi mynd ar goll yn ystod y llifogydd.
GWEITHREDU: Cysylltu â CSC GAN: Y Clerc

***8.2 Llwybrau Troed / Llwybr i Aberteifi***
*8.2.1 Diweddariad am y cynnydd gyda'r map cerdded*
Gohiriwyd oherwydd absenoldeb y Cadeirydd.

*8.2.2* ***Diweddariad am y llwybr i Aberteifi***
Ymgynghoriad Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol Ceredigion ¦ Adroddiad Interim
Nodwyd bod y llwybr dewisol ar gyfer llwybr beiciau rhwng Llechryd ac Aberteifi i'w weld yn mynd drwy Gilgerran a'r llwybr Sustrans presennol. Ni ddisgwylid y byddai llwybr yn cael ei greu ar hyd yr A484.

*8.2.3 Cofrestru llwybrau troed*
Roedd y Clerc yn disgwyl ateb oddi wrth y swyddog mapiau diffiniol PCC.

***8.3 Pont Llechryd***
Nid oedd y bont wedi cael niwed sylweddol yn ystod y llifogydd yn ddiweddar. Byddai archwiliadau pellach yn cael eu gwneud yn ddiweddarach eleni.

**9. Amwynderau**
**9.1 Bloc Toiledau**
Dim byd i sôn amdano.

***9.2 Man/Cae Chwarae – pob penderfyniad yn amodol ar gymeradwyaeth Cymdeithas Cae Chwarae Llechryd***

9.2.1 *Ffin*
Roedd y Clerc yn dal i bwyso ar y cyfreithiwr am wybodaeth.

*9.2.2 Man chwarae*

*Gwaith trwsio heb ei wneud ar ôl archwiliad ROSPA*
Heb newid er 04.01.21

Ar ôl trafodaeth cytunwyd y byddai'r Cyng I Davies yn holi Mr D Symmons am ddyfynbrisiau am waith ar y darn concrid a'r llwybr.
GWEITHREDU: Cysylltu â Mr D Symmons GAN: y Cyng I Davies

Mynegodd y Cyng K Symmons ei bryder iddo sylwi at dwmpath yn y cae o flaen y plac carreg ond ei fod wedyn wedi diflannu pan ymwelodd wedyn..

*9.2.4 Baw cŵn – stensil*
Cytunwyd i beidio â mynd ymlaen â'r mater.

*9.2.5 Arwyddion dim smygu yn y cae chwarae*
GWEITHREDU: Rhoddwyd pwerau dirprwyo i'r Clerc, drwy ymgynghori â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, i gostio a threfnu cynhyrchu'r arwydd angenrheidiol.
GWEITHREDU: Cael dyfynbris GAN: Y Clerc

**9.3 Parc ceir – Neuadd y Cwrwgl**
Roedd y Clerc yn pwyso ar y cyfreithiwr am wybodaeth.

***9.4 Eglwys y Groes Sanctaidd, Llechryd***
*9.4.1 Gwaith ac ymateb Yswiriant*
Roedd dyfynbris wedi dod am lanhau'r fynwent ar ôl y llifogydd yn ddiweddar. Cytunwyd i geisio cael rhagor o ddyfynbrisiau ac i roi'r wybodaeth i yswirwyr y Cyngor.
GWEITHREDU: rhagor o ddyfynbrisiau a'u rhoi i'r yswirwyr GAN: Y Clerc

Cytunwyd i drefnu arolwg llawn o adeiladwaith yr eglwys a'r muriau.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r cwmni GAN: Y Clerc

Gofynnodd y Clerc a oedd y Cyngor yn dymuno ychwanegu'r adfeilion a muriau'r fynwent at yswiriant y Cyngor yn y dyfodol.

***9.5 Adeilad y Mileniwm***
Gohiriwyd oherwydd absenoldeb y Cadeirydd.

**10. Digwyddiadau**
Diwrnod y GIG – Nodwyd y manylion.

**11. Adroddiadau cyfarfodydd**
Derbyn unrhyw adroddiadau.
*11.1 Cyng I Davies - Llywodraethwyr Ysgol*
Dywedwyd bod yr Ysgol wedi ymdopi'n dda yn ystod yr achosion o COVID. Byddai cyfarfod nesaf y Llywodraethwyr ar 10 Mawrth.
*11.2 Cyng H Davies – Neuadd y Cwrwgl*
Nodwyd mai'r Cyng H Davies oedd wedi'i benodo'n gynrychiolydd y Cyngor ar Bwyllgor y Neuadd. Byddai hyn yn cael ei adolygu yn y Cyfarfod Blynyddol.
*11.3 Cyfarfod PACT* – Nesaf 21 Mawrth
*11.4 Grŵp Gwytnwch (i gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y llifogydd)*
Cyfarfod nesaf 9 Mawrth.

**12. Gohebiaeth (i gynnwys dogfennau ymgynghorol heb eu cynnwys dan unrhyw bennawd arall)**

*Nodwyd yr ohebiaeth:*

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adolygu Fframwaith Taliadau Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref

https://gov.wales/litter-and-fly-tipping-prevention-plan-wales. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 22 Ebrill 2021.Ymateb i Un Llais Cymru erbyn diwedd mis Mawrth.

**13. Materion Personol – Cyfnewid Gwybodaeth gan Gynghorwyr**

Dywedwyd bod angen batri a phadiau newydd yn y diffibrileiddiwr.
GWEITHREDU: Eu harchebu GAN: Y Clerc

Nodwyd bod diddordeb mewn darparu lleiniau garddio. Dywedodd y Clerc fod y gyfraith yn benodol iawn am y gweithdrefnau angenrheidiol gan y Cyngor. Byddai'n anfon gwybodaeth at y Cynghorwyr.
GWEITHREDU: Anfon gwybodaeth GAN: Y Clerc

Mynegwyd pryder am sylw yn ddiweddar ar y cyfryngau cymdeithasol am ddiffyg cefnogaeth gan y Cyngor Cymdeithas yn ystod y llifogydd yn ddiweddar. Roedd y Cyngor wedi ymwneud yn agos â'r Grŵp Amddiffyn Rhag Llifogydd ac wedi darparu cymorth yn ystod y digwyddiad. Awgrymwyd, pan fyddai Cynghorwyr yn rhoi sylwadau y dylent fod yn ymwybodol bob amser o'r effaith y gallai'r rheiny ei chael.

Gofynnwyd a ellid darparu rhyw fath o fainc neu le coffa yn y pentref.
GWEITHREDU: Eitem agenda GAN: Y Clerc

**14. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 7 Ebrill 2021**